
**Rhif**: **2**

**Rhif y Cais / Application Number : C15/1296/36/LL**

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**



Cais Rhif: C15/1296/36/LL
Dyddiad Cofrestru: 03/12/2015
Math y Cais: Llawn - Cynllunio
Cymuned: Dolbenmaen
Ward: Dolbenmaen

Bwriad: GOSOD TYRBIN GWYNT FFERM 85KW AR DWR 25M CYFANSWM UCHDER 37M AT FRIG Y LLAFN
Lleoliad: LLYSTYN CANOL, GARNDOLBENMAEN, GWYNEDD, LL51 9UJ

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** CANIATAU GYDAG AMODAU

## 1. Disgrifiad:

1.1 Cais llawn i godi tyrbin gwynt 85kw ar dŵr 25m gyda chyfanswm uchder o 37m at ei frig (gan gynnwys y llafnau) ar ddaliad amaethyddol presennol rhwng pentrefi Bryncir a Garndolbenmaen. Bwriedir i liw y llafnau fod yn lwyd golau tra fod lliw y tŵr yn cael ei gynnig i weddu gyda'r tyrbin arall sydd eisoes wedi cael ei godi ar ran arall o dir y fferm. Mae trac mynediad eisoes wedi ei greu o'r ffordd gyhoeddus agosaf tuag at y safle presennol, mi fyddai ceblau yn cael eu gosod o dan y ddaear o'r tyrbin i gysylltu gyda newidydd ar bolyn presennol oddeutu 220m i ffwrdd.

1.2 Mae lleoliad y tyrbin i'w godi o fewn oddeutu 260m i eiddo preswyl Llystyn Ganol ac o fewn 150m i'r tyrbin presennol sydd ar y tir. Mae'r eiddo preswyl agosaf i leoliad y tyrbin oddeutu 300m i ffwrdd gyda thai preswyl eraill ymhellach wedyn.

1.3 Credir mai ardal wledig amaethyddol fyddai disgrifiad gorau'r safle a'i gyffiniau ond fe welir fod nodweddion ffurfiol eraill gerllaw. Mae ffordd Dosbarth 3 i gyfeiriad y gogledd a'r dwyrain o'r safle ble gwelir waliau o garreg naturiol a chloddiau uchel yn ei ffinio tra fod cefnffordd yr A487 trwy bentref Bryncir i gyfeiriad y de a'r gorllewin. Mae ffin Parc Cenedlaethol Eryri wedi ei leoli oddeutu 440m i gyfeiriad y dwyrain, y ffordd dosbarth 3 y gyfeiriwyd ati eisioes sydd yn ffurfio'r ffin gyda'r Parc Cenedlaethol yn y lleoliad yma ac fe welir fod y tir tu hwnt i'r ffordd sef tiroedd o fewn y Parc yn codi yn raddol mewn uchder. Nid oes unrhyw ddynodiadau ffurfiol eraill gerllaw. Mae nifer o lwybrau cyhoeddus oddi amgylch y safle gan gynnwys rhai sydd yn arwain ar hyd tiroedd uwch yng nghyffiniau'r safle.

1.4 Wrth reswm, mi fyddai graddfa amlygrwydd y safle a'r tyrbin arfaethedig o safleoedd tu allan gan gynnwys y Parc, yn amrywio oherwydd topograffi lleol a nodweddion yn y dirwedd tu mewn a thu draw i'r safle gan gynnwys y tyrbin presennol a welir ar y safle, peilonau trydan a tyrbinau gwynt eraill. Mae'r tyrbin presennol sydd ar y safle wedi ei leoli oddeutu 380m oddiwrth ffin y Parc Cenedlaethol, mae'r tyrbin sydd yn destun y cais yma oddeutu 440m o ffin y Parc gwahaniaeth o oddeutu 60m ymhellach i ffwrdd o'r ffin.

1.5 Mae gwybodaeth cyfredol LANDMAP yn nodi mai gwerth canolig sydd i'r tirwedd yma o safbwynt ystyriaethau gweledol a synhwyrol ag o safbwynt tirlun a chynefinoedd, ond fod gwerth uchel iddo o safbwynt tirwedd hanesyddol ag eithriadol o safbwynt daeareg a thirwedd diwylliannol.

1.6 Mae'r cais yma wedi cael ei sgrinio yn ffurfiol ar gyfer Asesiad Effaith Amgylcheddol dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 (fel y'i diwygwyd). Ni chanfuwyd fod y bwriad yn syrthio o fewn unrhyw faen prawf

datblygu yn Atodlen 1ond credir ei fod yn dod o fewn disgrifiad datblygiad o dan rhan 3(i) yn Atodlen 2 sef defnyddio pwer y gwynt i gynhyrchu ynni. Yn dilyn asesu effaith tebygol y datblygiad ar yr amgylchedd gan ddefnyddio meini prawf penodol fel a nodir yn Atodlen 3 yn ogystal a chanllawiau yng Nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig 11/99, ni ystyrir fod effaith y datblygiad arfaethedig ar yr amgylchedd yn ddigon sylweddol i gyfiawnhau gofyn cyflwyno datganiad amgylcheddol gyda'r cais hwn.

1.7 Cyflwynwyd y wybodaeth ganlynol fel rhan o'r cais:

- Datganiad Dylunio a Mynediad
- Asesiad Swn Tyrbin Gwynt
- Arolwg Ystlumod
- "Zone of Theoretical Visibility" – map yn dangos lleoliadau ble tynnwyd cyfres o luniau'r tirlun fel y mae a'r tirlun yn cynnwys "photomontage" o'r tyrbin yn ei le

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

2.2 **Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

CYMRYD DULL RHAGOFALUS – POLISI STRATEGOL 1 - Gwrthodir cynigion datblygu a fydd yn cael effaith annerbyniol ac amhendant ar yr amgylchedd, y gymdeithas, yr economi neu ar yr iaith Gymraeg neu gymeriad diwylliannol cymunedau ardal y Cynllun, oni bai y cyflwynir asesiad o effaith priodol sy'n profi heb amheuaeth y gellir negyddu neu leihau'r effaith mewn modd sy'n dderbyniol i'r Awdurdod Cynllunio.

POLISI STRATEGOL 2 – YR AMGYLCHEDD NATURIOL - Bydd amgylchedd naturiol a chymeriad tirwedd yr ardal a golygfeydd i mewn ac allan o Barc Cenedlaethol Eryri ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Ynys Môn a Llŷn, yn cael eu cynnal neu eu gwella trwy wrthod cynigion datblygu a fydd yn eu niweidio'n arwyddocaol.

POLISI STRATEGOL 3 – TREFTADAETH ADEILEDIG A HANESYDDOL - Bydd treftadaeth adeiledig a hanesyddol yr ardal yn cael ei hamddiffyn rhag datblygiadau a fyddai'n ei niweidio'n arwyddocaol a disgwylir i ddatblygiadau newydd o fewn ardaloedd hanesyddol gyd-fynd â safonau dylunio arbennig o uchel a fydd yn cynnal neu wella'u cymeriad arbennig.

SAFONAU DYLUNIO – POLISI STRATEGOL 4 - Disgwylir i ddatblygiad fod o ddyluniad da er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol, lle bynnag y bo hynny'n bosib, i'r dirwedd, yr amgylchedd adeiledig a datblygiad cynaliadwy.

DATBLYGIADAU SY'N CREU RISG – POLISI STRATEGOL 5 - Bydd datblygiadau sy'n anghyson â'r angen i warchod gorlifdiroedd neu ostwng y perygl o lifogydd a
datblygiadau sy'n creu risg o ddifrod annerbyniol i iechyd, eiddo neu'r amgylchedd yn cael eu gwrthod.

POLISI STRATEGOL 9 – YNNI - Caniateir cynlluniau i ddarparu ynni o ffynonellau adnewyddadwy na fyddai'n niweidio'r amgylchedd neu fwynderau trigolion cyfagos mewn modd arwyddocaol.

POLISI A1 - ASESIADAU AMGYLCHEDDOL NEU ASESIADAU EFFEITHIAU ARALL - Sicrhau fod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu gyda'r cais cynllunio ynglŷn ag unrhyw effeithiau amgylcheddol neu eraill sylweddol tebygol ar ffurf asesiad amgylcheddol neu asesiadau o effeithiau eraill.

POLISI A2 - GWARCHOD GWEAD CYMDEITHASOL, IEITHYDDOL A DIWYLLIANNOL CYMUNEDAU - Diogelu cydlyniad cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau rhag niwed arwyddocaol oherwydd maint, graddfa, neu leoliad cynigion.

POLISI A3 - EGWYDDOR RAGOFALUS - Gwrthod cynigion os oes unrhyw bosibilrwydd o ddifrod difrifol neu anwrthdroadwy i'r amgylchedd neu'r gymuned os na ellir dangos heb amheuaeth ar ddiwedd asesiad perthnasol o'r effeithiau y gellir negyddu neu liniaru'r effaith.

POLISI B7 - SAFLEOEDD O BWYSIGRWYDD ARCHEOLEGOL - Gwrthod cynigion fydd yn difrodi neu ddifetha gweddillion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol (boed yn rhai cofrestredig ai pheidio) neu eu gosodiad. Gwrthodir hefyd datblygiad fydd yn effeithio ar weddillion archeolegol eraill oni bai bod yr angen am y datblygiad yn drech nag arwyddocâd y gweddillion archeolegol.

POLISI B8 - ARDALOEDD O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN A MÔN - Gwarchod, cynnal a gwella cymeriad yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol drwy sicrhau fod cynigion datblygu yn cydymffurfio a chyfres o feini prawf sy'n ceisio gwarchod nodweddion cydnabyddedig.

POLISI B14 - GWARCHOD CYMERIAD TIRWEDD PARC CENEDLAETHOL ERYRI - Gwarchod cymeriad tirwedd Parc Cenedlaethol Eryri drwy wahardd cynigion sy'n ymwthio'n weledol a/neu sydd wedi eu lleoli yn ansensitif ac yn anghydnaws o fewn y dirwedd.

POLISI B20 - RHYWOGAETHAU A'U CYNEFINOEDD SY'N BWYSIG YN RHYNGWLADOL A CHENEDLAETHOL - Gwrthodir cynigion sy'n debygol o achosi aflonyddwch neu niwed annerbyniol i rywogaethau a warchodir a'u cynefinoedd oni bai y gellid cydymffurfio a chyfres o feini prawf sy'n anelu at ddiogelu nodweddion cydnabyddedig y safle.

POLISI B22 - DYLUNIAD ADEILADAU - Hyrwyddo dyluniad adeiladau da drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a'r amgylchedd leol.

POLISI B23 - MWYNDERAU - Diogelu mwynderau'r ardal leol drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio a chyfres o feini prawf sy'n anelu at warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol.

POLISI B25 - DEUNYDDIAU ADEILADU - Gwarchod cymeriad gweledol trwy sicrhau fod yn rhaid i ddeunyddiau adeiladu fod o safon uchel sy'n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol.

POLISI B33 - DATBLYGIAD SY'N CREU LLYGREDD NEU BOENDOD - Gwarchod iechyd, diogelwch neu fwynderau cyhoeddus, neu ansawdd yr amgylchedd adeiledig neu naturiol o ganlyniad i lefelau uwch o lygredd.

POLISI C1 - LLEOLI DATBLYGIAD NEWYDD - Tir o fewn ffiniau datblygu trefi a phentrefi a ffurf ddatblygedig pentrefi gwledig fydd y prif ffocws ar gyfer datblygiadau newydd. Gwrthodir adeiladau, adeiladweithiau a chyfleusterau atodol newydd yng nghefn gwlad ar wahân i ddatblygiad sy'n cael ei ganiatáu gan bolisi arall yn y Cynllun.

POLISI C26 – DATBLYGIADAU MELINAU GWYNT - Gwrthodir cynigion ar gyfer datblygiadau melinau gwynt ar safleoedd o fewn AHNE Llŷn. Mewn lleoliadau eraill, dim ond cynigion ar gyfer datblygiadau melin wynt ar raddfa fechan neu rai cymunedol neu ddomestig fydd yn cael eu caniatáu cyn belled y gellir cydymffurfio a chyfres o feini prawf sydd yn ymwneud ag effaith ar ansawdd gweledol y dirwedd a ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol.

POLISI CH22 - RHWYDWAITH BEICIO, LLWYBRAU A HAWLIAU TRAMWY - Gwarchodir pob rhan o'r rhwydwaith beicio, llwybrau a hawliau tramwy trwy annog cynigion fydd yn eu hymgorffori yn foddhaol o fewn y datblygiad a thrwy wahardd cynlluniau i ymestyn y rhwydwaith beicio, llwybrau a hawliau tramwy. Os na fydd hyn yn bosib bydd yn rhaid gwneud darpariaeth briodol i wyro'r llwybr neu i ddarparu llwybr newydd boddhaol.

POLISI CH33 – DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD - Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio a meini prawf datblygu penodol sy'n ymwneud a mynedfa gerbydau ddiogel, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol i ymdopi a'r llif traffig o'r datblygiad a mesurau tawelu traffig.

Canllaw Cynllunio Atodol Ynni Gwynt ar y Tir (Mehefin 2014)
Canllaw Cynllunio Atodol : Cymeriad y Tirwedd (Tachwedd 2009)
Cynllun Rheolaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Llŷn

**2.3 Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru (Argraffiad 8, 2016)

Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 5, Llywodraeth Cynulliad Cymru: Cadwraeth Natur a Chynllunio

Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 8, Llywodraeth Cynulliad Cymru: Ynni Adnewyddadwy

Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 11, Llywodraeth Cynulliad Cymru: Sŵn,

Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 12, Llywodraeth Cynulliad Cymru: Datganiadau Dylunio a Mynediad

Cylchlythyr 60/96: *Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol*: *Archeoleg*

**2.4 Ystyriaethau Materol Eraill:**

Nodyn Cyngor Gwybodaeth Landmap, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Rhif 3 – *Asesiad Tirlun a Gweledol o Felinau Gwynt Oddi ar y Lan* (Mehefin 2010),

Asesiad Sensitifrwydd a Chynhwysedd Tirlun Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri. Gillespies, Mawrth 2014

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Cais C12/0366/36/LL – codi tyrbin gwynt 50kw ar dŵr 24.6m cyfanswm uchder 34.2m at frig y llafn a chreu trac newydd – caniatawyd 05.07.12

**4. Ymgynghoriadau:**

Cyngor Cymuned/Tref: Dim gwrthwynebiad

Uned Drafnidiaeth: Dim sylw

| | |
| --- | --- |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Gwrthwynebwyd y cais yn wreiddol oherwydd diffyg gwybodaeth am effaith y datblygiad ar y tirlun ag ystlumod. O ganlyniad i wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd cadarnhawyd na fyddai gwrthwynebiad o safbwynt mân newid i edrychiadau ar olygfeydd o'r parc cenedlaethol. Er hynny cynghorir mai capasiti isel iawn sydd ar ol i ddatblygiadau gwynt pellach heb y byddai yn effeithio ar y parc. Awgrymir cynnwys amodau perthnasol i gytuno ar fesurau cwtogi effaith ar ystlumod. |
| Dŵr Cymru: | Dim sylw |
| Uned Gwarchod y Cyhoedd: | Dim gwrthwynebiad o ganlyniad i archwilio'r asesiad sŵn a gyflwynwyd ag yn ddarostyngedig i gynnwys cyfres o amodau i reoli sŵn. Cadarnhawyd ar sail y wybodaeth a gyflwynwyd, na fyddai lefelau swn y tyrbin presennol ynghyd a swn y tyrbin arfaethedig yn codi yn uwch na lefelau priodol. |
| Uned Hawliau Tramwy: | Angen gwarchod llwybr cyhoeddus cyfagos ag angen trwydded i osod ceblau o dan y llwybr. |
| Uned Bioamrywiaeth: | Awgrymir cynnal archwiliadau ystlumod yn ystod y gwanwyn a'r haf er mwyn creu darlun cliriach o ddefnydd ystlumod o'r safle, dylid hefyd cynnal asesiad o effaith cynyddol y tyrbin newydd gyda'r tyrbin presennol a'i gynnwys o fewn un adroddiad gyda mesurau lliniaru bwriedig. |
| Uned AHNE: | Oherwydd y pellter oddiwrth ffin yr AHNE a natur fryniog y tir, ni chredir y byddai yn amlwg o leoliadau'r AHNE nag yn amharu ar olygfeydd i mewn ag allan o'r AHNE. |
| CADW: | Ni fyddai yn cael effaith sylweddol ar henebion cofrestredig yn bennaf oherwydd nodweddion gwrthdynnu sydd yn yr ardal yn barod. |
| Ymddiriedolaeth Archeolegol: | Angen cynnwys amod i gytuno ar raglen o waith archeolegol. |
| Parc Cenedlaethol Eryri: | Gwrthwynebir y bwriad oherwydd effaith cronnol gyda thyrbeini eraill sydd gyda'r potensial i gael effaith andwyol ar fwynderau a golygfeydd allan o'r Parc. Mae pryder am allu'r dirwedd i gynnal mwy o elfennau fertigol heb effeithio ar y Parc Cenedlaethol a'r effaith dilyniannol ar ddefnyddwyr yr A487 |
| Scottish Power: | Ni ragwelir problemau |
| Trafnidiaeth Cynulliad: | Dim sylw |
| MOD: | Dim gwrthwynebiad |
| ARQIVA (ar ran BBC ag ITV): | Heb eu derbyn |
| NATS Safeguarding: | Heb eu derbyn |

| | |
| --- | --- |
| OFCOM: | Cyflwynwyd manylion technegol ynglyn a thrwyddedau cyfredol yn yr ardal |
| Crown Castle: | Heb eu derbyn |
| Nwy: | Heb eu derbyn |
| Gwasanaeth Mwynau a Gwastraff: | Dim gwrthwynebiad |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben, derbyniwyd llythyrau / gohebiaeth yn gwrthwynebu ar sail: |

- Mae swn yn deillio o'r tyrbin presennol sydd yn golygu y bydd ail dyrbin yn cynyddu'r lefelau
- Amharu ar osodiad a thirwedd lleol yn arbennig felly y Parc Cenedlaethol
- Adroddiadau ecolegol annigonol wedi eu cyflwyno
- Pryderon am dyfiant 'ar hap' o elfennau fertigol yn y tirwedd
- Tyrbin eisioes yn bresennol ar y safle, mi fyddai'r ddau dyrbin yn rhy agos i'w gilydd
- Gwybodaeth annigonol
- Lluniau/photomontages ddim yn cyfleu yr effaith o fannau digon eang

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

5.1 **Egwyddor y datblygiad**

5.1.1 Mae polisiau cynllunio cenedlaethol perthnasol ynghylch datblygiadau ynni adnewyddadwy yn cael eu cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru, fersiwn 8 ynghyd a Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy sydd yn gysylltiedig. Mae canllawiau pellach ynglyn a'r mater i'w gweld yng Nghanllawiau Ymarfer: Goblygiadau Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel, Chwefror 2011.

5.1.2 Mae'r polisiau cenedlaethol yma yn adlewyrchu egwyddorion canolog Llywodraeth Cymru i ddatblygu'n gynaliadwy a phwysigrwydd yn y rôl y gall ynni adnewyddadwy gan gynnwys ynni gwynt, ei chwarae yn effeithiol mewn lleihau newid hinsawdd gyda'r nôd o gyrraedd gostyngiad o 40% mewn nwyon tŷ gwydr erbyn y flwyddyn 2020.

5.1.3 Nodir yma fod NCT 8 yn cyfeirio at yr angen i sicrhau na fydd datblygiadau yn effeithio ar AHNE a Pharciau Cenedlaethol, fodd bynnag, mae cyfeiriad hefyd yn y ddogfen sydd yn nodi y gall cynlluniau ar raddfa fechan neu ar raddfa domestig fod yn dderbyniol yn amodol ar roddi ystyriaeth lawn i'r holl faterion cynllunio perthnasol eraill.

5.1.4 Nid oes unrhyw Ardal Chwilio Strategol wedi cael ei adnabod o fewn ffiniau Gwynedd ar gyfer datblygiadau melinau gwynt ar raddfa fawr ac felly, rhaid asesu unrhyw ddatblygiad ar sail polisiau cynllun datblygu lleol.

5.1.5 Yn unol ag amcanion Polisi Strategol 9 yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gefnogol mewn egwyddor i'r bwriad o gynhyrchu ynni

adnewyddadwy gyda melinau gwynt, yn amodol ar ystyried, a chydymffurfio, gyda'r holl faterion cynllunio perthnasol. Fel y nodir uchod, mae nifer o'r polisïau yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd yn berthnasol wrth benderfynu ar gais unigol am felinau wynt.

5.1.6 Mae Polisi C1 yn berthnasol i leoli datblygiadau newydd ac yn datgan y canolbwyntir yn bennaf ar dir o fewn ffiniau datblygu trefi a phentrefi a'r ffurf ddatblygedig o bentrefi gwledig ar gyfer datblygiadau newydd. Gwrthodir adeiladau, strwythurau a chyfleusterau atodol newydd yng nghefn gwlad ar wahân i ddatblygiad sy'n cael ei ganiatáu gan bolisi arall yn y Cynllun. Mae datblygiadau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n defnyddio adnoddau naturiol yn cael eu nodi'n benodol fel rhai a allai fod yn addas os yw polisi arall yn y Cynllun yn eu cymeradwyo. Ystyrir felly fod y cynnig yn cydymffurfio â gofynion y polisi trwy hyn. Fodd bynnag, nodir hefyd yn y polisi y bydd adeiladau, strwythurau a chyfleusterau atodol newydd yng nghefn gwlad yn cael eu rheoli'n llym ac y dylid sicrhau bod perthynas weledol dda rhyngddyn nhw a datblygiadau sy'n bodoli eisoes ble mae hynny'n bosibl.

5.1.7 Y prif bolisi i'w hystyried wrth asesu egwyddor y datblygiad hwn yw polisi C26. Mae'r polisi yma yn ymdrin yn benodol â datblygiadau melinau gwynt ac yn adlewyrchu Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol. Mae'r polisi yma'n datgan y bydd 'cynigion am ddatblygiadau melinau gwynt o fewn AHNE Llŷn yn cael eu gwrthod'. Mewn lleoliadau eraill, dim ond cynigion ar gyfer datblygiadau melinau gwynt ar raddfa fechan neu rai cymunedol neu ddomestig fydd yn cael eu cymeradwyo, a hynny os bydd pob un o'r meini prawf a nodir yn cael eu cyfarfod. Mae'r meini prawf yma yn datgan:

1. na fyddai'r datblygiad yn cael effaith niweidiol arwyddocaol ar leoliad AHNE Llŷn, Môn neu Barc Cenedlaethol Eryri;

2. bod unrhyw ddatblygiadau atodol cysylltiedig yn cael eu dylunio a, ble bynnag bo'n bosibl, eu lleoli er mwyn lliniaru'u heffaith gweledol arfaethedig;

3. na fydd y datblygiad (yn unigol neu ar y cyd gyda datblygiadau melinau gwynt eraill) yn cael effaith niweidiol arwyddocaol ar y tirlun nac ar adnoddau cadwraeth natur;

4. na fyddai'r melinau gwynt yn achosi unrhyw effaith neu ddifrod amgylcheddol annerbyniol posibl ar fwynderau, gan gynnwys sŵn, adlewyrchiad golau a chryndod cysgod;

5. na fyddai'r datblygiad yn creu ymyrraeth electrofagnetig arwyddocaol i systemau trosglwyddo neu dderbyn presennol na ellid eu lliniaru'n ddigonol;

6. fod darpariaeth ddigonol wedi'i gynnwys yn y cynllun mewn perthynas â dadgomisiynu, adfer ac ôl ofal o'r tir.

7. ni fyddai'r datblygiad yn achosi niwed arwyddocaol i ardaloedd o bwysigrwydd archeolegol, yn enwedig o fewn neu ger ardaloedd dynodedig.

5.1.8 Mae Polisi C26 yn ystyried datblygiad melinau gwynt cymunedol neu ar raddfa fechan fel datblygiad nad yw'n gallu cynhyrchu mwy na 5MW. O ran gallu cynhyrchu, mae'r datblygiad arfaethedig yma yn cydymffurfio gyda'r agwedd yma o'r polisi. Ystyrir fod yr holl feini prawf ym mholisi C26 yn berthnasol fel a nodir isod ynghyd â'r polisïau cynllunio perthnasol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn. Yn ogystal, mae Canllaw Cynllunio Atodol 'Ynni Gwynt ar y Tir' wedi cael ei fabwysiadu gan Gyngor Gwynedd ym Mehefin 2014. Mae'r Canllaw yn pwysleisio, wrth ymdrin â cheisiadau melinau gwynt, fod yn rhaid taro cydbwysedd rhwng cyfraniad y dechnoleg hon at dargedau cenedlaethol am ynni

adnewyddadwy ac unrhyw effaith niweidiol y gallai'r datblygiad ei gael ar ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol lleol.

5.1.9 Mae'r Canllaw hefyd yn cyfeirio at astudiaeth a gomisiynwyd gan Gyngor Gwynedd a Môn i sensitifrwydd tirlun ac asesiad gallu am rai datblygiadau a wnaed gan gwmni Gillespies. Mae'n datgan nad oes, o fewn yr AHNE neu ardaloedd sy'n cyfrannu tuag at ei gosodiad a gosodiad y Parc Cenedlaethol, mewn gwirionedd unrhyw le am ddatblygiadau ynni gwynt (ag eithrio, yn anaml iawn, ddatblygiad ar raddfa domestig a ddylai gysylltu'n dda ag aneddiadau / adeiladau presennol). Tu allan i'r ardaloedd yma o bosib byddai capasiti cyfyngedig am ddatblygiadau micro hyd at 20m i frig y llafnau ond y byddai rhaid i unrhyw ddatblygiad newydd gael ei leoli yn ofalus i osgoi effaith cronnus gyda datblygiadau modern fertigol presennol.

5.1.10 Ystyrir mai'r prif ystyriaethau materol wrth asesu'r cais hwn yw effaith y datblygiad arfaethedig o safbwynt y materion canlynol:-

5.2 **Datblygiadau Ategol a Dadgomisiynu**

5.2.1 Mae'r ail maen prawf o fewn polisi C26 yn ymwneud â datblygiadau ategol cysylltiedig megis adeiladau, ffyrdd ac ati ac mae'n datgan y dylid eu dylunio a'u gosod mewn ffordd sy'n lliniaru'r effaith weledol lle bynnag y bo modd. Mae chweched maen prawf y polisi'n ymwneud â dadgomisiynu, adfer tir ac ôl-ofal pan ddeuai'r defnydd i ben.

5.2.2 Mae'r bwriad yn bennaf yn gwneud defnydd o drac mynediad presennol a greuwyd ar gyfer y tyrbin sydd eisoes wedi ei godi ar y safle. Mae ceblau i gario trydan o'r tyrbin i'w claddu o dan y ddaear tuag at bolyn presennol ble fydd yn cael ei gysylltu i newidydd presennol ag ymlaen i'r grid cenedlaethol. Ni chredir felly y bydd unrhyw effaith ychwanegol ar y tirwedd ar sail mynediad i'r safle a chysylltiadau. Mae bwriad i gyfleu gorffeniad a lliw y tyrbin presennol ar y tyrbin arfaethedig er mwyn parhad edrychiadau derbyniol ar y safle.

5.2.3 Pe byddai'r cais yma yn cael ei gymeradwyo, mae modd rheoli materion ynghylch dadgomisiynu, adfer tir ac ôl-ofal gydag amodau priodol a safonol pan ddaw'r defnydd i ben. Ystyrir y gallai'r elfennau ategol hyn fod yn dderbyniol a bod cyfiawnhad rhesymol ar eu cyfer (trwy amodau priodol) o ran polisïau B22, B23, B25 a maen prawf 2 a 6 polisi C26 os yw lleoliad y tyrbin gwynt, fel arall, yn dderbyniol.

5.3 **Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.3.1 Credir fod pellter sylweddol rhwng safle'r tyrbin arfaethedig ag unrhyw dy preswyl cyfagos (ar wahan yn amlwg i eiddo'r ymgeisydd ). Mae Uned Gwarchod y Cyhoedd wedi asesu'n llawn yr asesiad sŵn a gyflwynwyd gyda'r cais. Ar sail hynny, mae cadarnhad yn cael ei roi na fyddai'r lefelau swn y tyrbin arfaethedig ynghyd a swn y tyrbin presennol yn codi'n uwch na lefelau swn priodol.

5.3.2 Oherwydd hynny, awgrymir cynnwys amodau gyda unrhyw ganiatad sydd yn sicrhau na fyddai lefelau swn yn newid i raddau annerbyniol gan amharu ar fwynderau cyffredinol a phreswyl yr ardal gyfagos.

5.3.3 Yn yr un modd, oherwydd y pellter rhwng lleoliad y tyrbin ac unrhyw eiddo preswyl agos, ni chredir y byddai amharu ag aflonyddwch o safbwynt taflu cysgod. Ni chredir felly y bydd y datblygiad arfaethedig yn groes i ofynion polisiau B23, B33 a chymal 4 polisi C26.

5.4 **Mwynderau gweledol**

5.4.1 Derbyniwyd cadarnhad gan yr Uned AHNE nad oedd unrhyw bryderon am effaith y datblygiad arfaethedig o safbwynt golygfeydd i mewn ag allan o'r AHNE. O ystyried hyn, credir felly fod y bwriad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio gyda gofynion polisi B8.

5.4.2 Mae Polisi C26 o CDUG yn ymwneud gyda datblygiadau melinau gwynt. Yn unol gyda'r polisi hwn dim ond datblygiadau melin gwynt ar raddfa fechan neu rai cymunedol neu ddomestig fydd yn cael eu caniatáu cyn belled y gellir cydymffurfio gyda'r meini prawf sy'n rhan o'r polisi i gyd.

5.4.3 Yn berthnasol i'r cais hwn mae'r meini prawf sydd yn datgan na fydd effaith niweidiol sylweddol ar osodiad Parc Cenedlaethol Eryri na AHNE Llyn; bod datblygiadau atodol yn cael eu dylunio mewn modd addas; na fydd effaith niweidiol sylweddol ar y dirwedd neu nodweddion cadwraeth natur; nad oes effaith ar fwynderau megis sŵn neu lewyrch golau a chysgodion; na fydd ymyrraeth sylweddol electromagnetig; darpariaeth ddigonol ar gyfer dadgomisiynu, adfer tir ac ati; dim niwed sylweddol i ardaloedd o bwysigrwydd archeolegol.

5.4.4 Mae'r safle o fewn oddeutu 440m i ffin Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r tirwedd yn y rhan hwn o'r Parc gyda naws agored ucheldir fel sydd yn cael ei nodi yn asesiad LANDMAP o'r ardal. Fe asesir y mwyafrif o'r ardal o werth gweledol canolig gan nodi fod y mwyafrif o'r golygfeydd er yn gyffredinol heb eu difetha, yn cael eu cyfaddawdu gan bresenoldeb nodweddion sy'n difrïo'r golygfeydd megis peilonau trydan.

5.4.5 Yng nghyd-destun Polisi C26 rhaid ystyried ac asesu gwerth y dirwedd yng nghyd-destun y cais ei hun. Mae asesiad LANDMAP yn gosod y cefndir i allu gwneud hyn. Gellir hefyd nodi fod y dirwedd yn y Parc yn foel ac mai'r prif nodweddion yw waliau cerrig ac ambell i adeilad gwasgaredig. Tu allan i ffin y Parc tuag at safle'r cais ag oddiamgylch mae'r tir yn newid yn yr ystyr fod chwarel tywod a graean gerllaw, mae'r tir wedi ei drin ar gyfer defnydd amaethyddol dwys, gwelir bentref Bryncir, cefnffordd yr A487 a mwy o ddatblygiad yn gyffredinol. Mae llawer o dir Llystyn Ganol ei hun wedi ei adfer ar gyfer ei ddefnydd amaethyddol presennol o ddefnydd blaenorol fel chwarel tywod a graean.

5.4.6 Mae gwrthwynebiadau'r Parc Cenedlaethol, mudiadau lleol (Cymdeithas Eryri, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (CPRW)) ac aelodau o'r cyhoedd yn ategu ei gilydd drwy nodi y byddai'r bwriad yn cael effaith andwyol ar osodiad y Parc a bod effaith cronnol annerbyniol o ystyried tyrbin arall ar y safle ag ar diroedd eraill gerllaw. Mae'r gwrthwynebiadau hyn hefyd yn nodi y bydd niwed i fwynderau gweledol a golygfeydd i mewn ac allan o'r Parc ac nad oes capasiti i fwy o nodweddion fertigol heb effeithio ar y Parc.

5.4.7 Mae pryder wedi ei nodi hefyd am amlygrwydd y bwriad o'r gyfeiriad yr A487. Ni chredir y byddai'r bwriad yn denu sylw i raddau anerbyniol ac mai golygfa o bell fuasai o'r A487 yn erbyn cefndir o dir moel ac y byddai lliw addas yn gymorth i ymdoddi yn y dirwedd. O safbwynt effaith y bwriad ar olygfeydd allan o'r Parc byddai'n weladwy o dir uwch o fewn y Parc sydd yn weddol bell o'r safle ei hun ac y byddai yn erbyn cefndir o diroedd uwch tu allan i'r Parc ac felly ni fyddai ar y gorwel. Yn ogystal byddai'r golygfeydd cefndir allan o'r Parc yn cynnwys y peilonau sydd eisoes yn ôl LANDMAP yn cael effaith ar fwynderau gweledol yr ardal.

5.4.8 Ni honir fod presenoldeb y peilonau yn ei hunain yn golygu fod y bwriad yn dderbyniol gan fod gofyn hefyd ystyried unrhyw effaith cronnol y peilonau a'r felin wynt sydd eisoes wedi ei hadeiladu ar y safle yn ogystal a pheilonnau ac tyrbinau gwynt eraill ar diroedd ymhellach i ffwrdd. Wrth asesu'r bwriad yng nghyd-destun ei leoliad ac yng nghyd-destun unrhyw effaith

cronnol ni ystyrir fod effaith niweidiol sylweddol yn debygol o fod ar osodiad y Parc Cenedlaethol er gwaethaf gwrthwynebiad gan Awdurdod y Parc i'r bwriad. Gellir dadlau fod effaith niweidiol presennol yn bodoli yn y cyffiniau agos ac na fyddai'r bwriad yn altro nac yn ychwanegu yn sylweddol at hynny. Er hynny, mae'n debygol fod trothwy nifer y strwythurau fertigol yn yr ardal yn cael ei gyrraedd gyda'r datblygiad diweddaraf yma ag y byddai ychwanegiad wedi hyn yn debygol o fod yn annerbyniol.

5.4.9 Ni chredir fod y bwriad fel y mae yn debygol o niweidio nodweddion a chymeriad arbennig y Parc trwy ymwthio yn sylweddol yn weledol ac/neu drwy leoli ansensitif ac anghydnaws o fewn y dirwedd fel y'i nodir ym Mholisi B14. Mae hyn y seiliedig ar y ffaith fod dylanwad gweledol y tyrbin yn eitha' cyfyngedig oherwydd ei leoliad a'r hyn sy'n gefndir iddo - unai tirwedd noeth neu beilonau/tyrbin, ynghyd a gallu'r bwriad i ymdoddi yn y dirwedd o gwmpas. Mae modd hefyd lleihau unrhyw effaith weledol debygol y caiff y tyrbin trwy ei baentio'n llwyd fel a gytunwyd gyda'r tyrbin blaenorol. Hefyd am y rhesymau hyn ni chredir y byddai tyrbin arall ar y safle hwn yn debygol o arwain at effaith cronnol annerbyniol yn yr ardal er fel sydd eisioes wedi ei nodi, mae'n debygol y byddai niferoedd ychwanegol wedi hyn yn gorfod cael eu ystyried yn ofalus.

5.4.10 O safbwynt gweddill y meini prawf, ag fel sydd eisioes wedi ei nodi, ni fydd datblygiadau atodol ar wahan i gysylltu, o dan y ddaear, gyda pholyn a newidydd presennol a gellir rheoli hyn drwy amod. Nid oes gofyn am gompownd na storfa.

5.4.11 Oherwydd natur y bwriad sef tyrbin gyda cyfanswm uchder o 37m i'w frig, mae'n anorfod y byddai yn weladwy o nifer o fannau gan gynnwys ffyrdd cyhoeddus cyfagos. Ond oherwydd ei leoliad a natur yr ardal sydd yn gefndir iddo, ni chredir fod unrhyw effaith andwyol negyddol sylweddol ar fwynderau gweledol y dirwedd yn fwy na'r hyn sy'n bodoli'n barod. Oherwydd hynny, ni chredir fod y bwriad yn groes i ofynion polisïau C26 a B14.

## 5.5 Materion trafnidiaeth a mynediad

5.5.1 Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad gan Uned Drafnidiaeth y Cyngor nag ychwaith, gan Uned Trafnidiaeth y Cynulliad o safbwynt unrhyw effaith niweidiol ar gefnffordd yr A487 gerllaw. Credir felly, fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt materion trafnidiaeth a'i fod felly yn cydymffurfio gyda gofynion polisi CH33.

5.5.2 Derbyniwyd sylw gan Uned Hawliau Tramwy y Cyngor yn datgan fod angen gwarchod llwybr cyhoeddus gerllaw a derbyn trwydded i gynnal gwaith claddu ceblau o dan lwybr cyfagos. Credir fod modd sicrhau hyn trwy amod fyddai'r sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion polisi CH22.

## 5.6 Materion bioamrywiaeth

5.6.1 Nid yw safle'r datblygiad arfaethedig ar dir wedi ei ddynodi gydag unrhyw werth bioamrywiaeth, credir mai tir amaethyddol sydd wedi ei drin ydyw ag felly nid oes unrhyw bryderon o safbwynt ei effaith ar diroedd wedi ei ddynodi neu warchod.

5.6.2 Mae CNC yn ogystal ag Uned Bioamrywiaeth y Cyngor wedi nodi i ddechrau, gwrthwynebiad i'r bwriad o ran diffyg ystyriaeth ddigonol i effaith y datblygiad ar rywogaethau wedi eu gwarchod. Derbyniwyd diweddariad i'r sylwadau maes o law yn dilyn cyflwyno Cynllun Lliniaru a Cwtogiad (curtailment plan) ystlumod. Er mwyn dilyn yr egwyddor ragofalus, gofynir trwy amodau ffurfiol i ymgeiswyr gyflwyno rhagor o wybodaeth ar ffurf arolygon safle neu gytuno cynllun 'cwtogiad' (curtailment) a olygai cyfyngu ar weithrediad y tyrbin yn ystod cyfnodau pan fydd ystlumod yn weithredol. Mae'r math yma o

drefniant wedi ei dderbyn a'i gytuno arno yn y gorffennol ar ddatblygiadau cymharol. O weithredu'r uchod fe ystyrir y byddai'r datblygiad yn dderbyniol ag yn cydymffurfio gyda gofynion polisi B20.

5.7 **Materion Archeolegol**

5.7.1 Mae'r Gwasanaeth Archeolegol a CADW yn datgan fod henebion wedi eu lleoli o fewn yr ardal eang gyfagos a bod potensial i'r tyrbin gael peth effaith ar osodiad yr henebion yma. Nid oes gwrthwynebiad i'r datblygiad o ganlyniad i hyn ac yn ychwanegol i'r effaith gweledol ar yr henebion yma, fe awgrymir y dylid cynnwys amodau er mwyn sicrhau y bydd rhaglen o waith archeolegol priodol yn cael ei gytuno arno a'i gynnal wedi hynny. Trwy wneud hyn, credir fod gofynion polisi B7 yn cael ei fodloni.

5.8 **Unrhyw ystyriaethau eraill**

5.8.1 Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad gan gyrff neu fudiadau sydd yn gyfrifol am warchod buddiannau sustemau drosglwyddo a sustemau electrofagnetig. Ni chredir felly fod y bwriad yn annerbyniol o safbwynt ei gydymffurfiaeth gyda maen prawf 5 o bolisi C26.

5.9 **Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

5.9.1 Cydnabyddir fod cais ar gyfer codi tyrbin gwynt fel yma yn rhwygo barn gan fod yn amlwg gwir angen am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy ond bod tyrbin fel yma yn anorfod yn cael peth effaith ar y dirwedd leol. Mae hyn yn cael ei amlygu yn y sylwadau a dderbyniwyd.

5.9.2 Rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r holl faterion cynllunio perthnasol a amlygwyd yn y llythyrau a sylwadau a dderbyniwyd. Wedi pwyso a mesur yr holl faterion cynllunio perthnasol, gan gynnwys sylwadau yn ogystal a pholisiau mabwysiedig y Cyngor a pholisiau cenedlaethol, gwneir yr argymhelliad fel a nodir isod.

**6. Casgliadau:**

6.1 Mae natur y math yma o ddatblygiadau bron yn amhosib i'w integreiddio yn gyfan gwbl i mewn i unrhyw dirwedd. Rhaid felly trwy bwyso a mesur yn ofalus, yr effaith ar y dirwedd o safbwynt ei nôd ar lefel lleol a chenedlaethol i hybu datblygiadau sydd yn creu ynni adnewyddol.

6.2 Er bod tyrbin presennol eisoes ar dir yr ymgeisydd ac y byddai ychwanegu at yr un yma yn cynyddu'r effaith weledol i raddau, credir fod ymgais wirioneddol wedi ei wneud i ddewis lleoliad sydd yn lleihau'r effaith gymaint ag sydd yn ymarferol bosibl. Mae ei leoliad ar dir sydd yn is na'r tyrbin presennol ac felly er y bydd ei uchder gyflawn yn 2m yn uwch at y llafnau na'r tyrbin presennol, mae wedi ei leoli ar dir sydd yn is na'r tyrbin arall ac felly ni fydd yn uwch i'w weld ar y safle. Fel sydd eisioes wedi ei nodi yn yr adroddiad yma, mae ei leoliad ymhellach i ffwrdd o ffin y Parc Cenedlaethol na'r tyrbin presennol sydd ar y safle. Er mwyn lliniaru effaith gweledol y tyrbin, rhoddir amod i sicrhau y bydd ei liw yn gweddu gyda'r tyrbin presennol a welir yma.

6.3 Mae swyddogion yn cytuno i raddau gyda'r sylwadau a roddwyd ynglyn a effaith cronnol tyrbin ychwanegol o fewn yr ardal yma o gofio fod nifer o dyrbeini eraill gerllaw. Oherwydd hynny, mae'n bur debyg fod trothwy derbyniol i'r math yma o ddatblygiadau o fewn yr ardal yma wedi ei gyrraeddwedi i'r tyrbin yma gael ei osod (pe byddai'n cael ei ganiatau).

6.4 O ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ogystal a pholisiau a chanllawiau lleol a chenedlaethol, ni chredir y byddai'r datblygiad arfaethedig yma yn cael effaith niweidiol ar fwynderau'r ardal lleol gan gynnwys y tirlun yn gyffredinol nag edrychiadau i mewn ag allan o'r Parc Cenedlaethol gerllaw. Fe ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt ei gydymffurfiaeth gyda polisiau lleol a chenedlaethol yn ymwneud gyda ynni adnewyddol a pholisiau lleol sydd ymwneud a'r tirlun a mwynderau.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Caniatau – amodau

1. Amser – cychwyn gwaith o fewn 2 flynedd
2. Cydymffurfio gyda cynlluniau
3. Caniatad am gyfnod o 25 mlynedd
4. Lliw/gorffeniad
5. Sŵn
6. Dadgomisiynu
7. Archeoleg
8. Bioamrywiaeth
9. Ceblau tanddaearol yn unig
10. Cyflwyno manylion unrhyw offer neu beirianwaith
11. amod cynllun cwtogi ar gyfer gwarchod ystlumod